

Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Benfro

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Benfro ar gyfer y flwyddyn 2014–15

Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014 - 2015

Awdurdod Cyngor Sir Penfro
Lleol:

Mae'r adroddiad hwn yn nodi gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Sir Penfro wrth gyflwyno ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

1. Crynodeb

- 1.1. Mae'r cyngor yn parhau i wynebu amseroedd heriol a phwysau ariannol wrth iddo drawsffurfio gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant, ochr yn ochr â pharatoi ar gyfer rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) ar waith. Gwnaed cynnydd ar y meysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad y llynedd, ac mae'r cyngor hefyd wedi nodi blaenoriaethau allweddol yn ei gynllun gwella. Mae ail-fodelu'r gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn yn parhau i gael ei gynnal, ac mae ganddo gefnogaeth wleidyddol gref. Mae trawsffurfio ac atgyfnerthu'r trefniadau comisiynu nawr yn cael ei ehangu i gynnwys gwasanaethau plant, sydd yn gam pwysig wrth lunio'r farchnad mae'r cyngor yn gweithredu ynddi. Bydd gweithrediad y trefniadau hyn yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y flwyddyn.
- 1.2. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae newid sylweddol wedi bod o ran swyddogion uwch, a phenodwyd cyfarwyddwr statudol newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Gadawodd cyn-benaethiaid y gwasanaeth oedolion a'r gwasanaeth plant yn ystod rhan olaf y flwyddyn, a gwnaed trefniadau dros dro nes yn ddiweddar. Mae pennaeth newydd ar gyfer gwasanaethau plant wedi'i benodi erbyn hyn, a bydd pennaeth newydd ar gyfer gwasanaethau oedolion yn dechrau ei swydd ym mis Medi. Yn ystod y cyfnod hwn o newid, mae'n rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn cynnal momentwm wrth ail-fodelu gwasanaeth, er mwyn gwneud yr arbedion effeithlonrwydd gofynnol, yn ogystal â pharhau i ymgysylltu â'i weithlu i hyrwyddo trawsffurfio.
- 1.3. Mae'r cyngor wedi nodi dwy brif flaenoriaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn ei gynllun gwella. Yn y gwasanaethau cymdeithasol, mae hyn er mwyn sicrhau dilyniant ac i newid cyflwyno gwasanaeth er mwyn gwella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd. Yn y gwasanaethau plant, mae'n anelu at adeiladu capasiti ei wasanaethau a'i ysgolion i sicrhau bod plant agored i niwed a phobl ifanc yn ddiogel gartref ac mewn addysg, ac yn cyrraedd eu llawn botensial. Mae adroddiadau cyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaeth yn dangos bod y cyngor yn parhau i fod â

gweledigaeth glir o sut y dylid cyflwyno gofal cymdeithasol nawr ac yn y dyfodol yn erbyn cefndir o gyfyngiadau ariannol sylweddol. Gall y cyngor arddangos ei fod yn cynllunio ar gyfer rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 ar waith y flwyddyn nesaf. Mae'n bwysig cadw'r momentwm hwnnw er mwyn hybu'r newidiadau gwasanaeth angenrheidiol a'u cyflwyno i ddinasyddion Sir Benfro.

2. Yr ymateb i'r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

Gwelliant wedi'i nodi y llynedd	Cynnydd yn 2014-2015
Dylai'r cyngor gyflawni'r adolygiad o'r ffordd y mae'n gweithredu'r canllawiau ar uwchgyfeirio pryderon i ddangos tystiolaeth o'r gefnogaeth iawn ar yr amser iawn i'r gwasanaethau hynny y mae'n eu comisiynu gan y sector annibynnol.	Mae ymateb y cyngor i'r broses a phrotocol uwchgyfeirio pryderon wedi cael ei adolygu. Cytunwyd ar y broses gyda phartneriaid, ac mae wedi'i rhoi ar waith. Mae drafft o brotocol lleol yn mynd drwy ymgynghoriad, yn dilyn mewnbwn gan gydweithwyr ieuchyd.
Dylai'r cyngor ystyried canfyddiadau'r adolygiad o wasanaethau sy'n bodloni anghenion plant a theuluoedd gydag anabledd, a'u rhoi ar waith.	Mae'r adolygiad wedi gorffen, ac mae gwasanaethau anabledd plant wedi'u hintegreiddio gyda Gwasanaethau Cynhwysiant. Mae baich achosion gweithwyr cymdeithasol wedi'i adolygu a'i ail-ddyrannu, ac mae hyn wedi caniatáu ffocws ar anabledd yn hytrach na gwaith cymdeithasol statudol.
Dylai'r cyngor sicrhau ymateb effeithiol i'r meysydd i'w gwella yn yr arolygiad plant sy'n derbyn gofal.	Cytunwyd ar gynllun gweithredu, sydd wedi cael ei fonitro, a gwnaed gwelliannau iddo. Mae'r camau gweithredu nad ydynt wedi cael eu cyflawni wedi'u cynnwys yng nghynllun gwella gwasanaethau plant.
Dylai'r cyngor weithredu i wella presenoldeb a chyrhaeddiad addysgol gwael plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.	Mae coladiad data presenoldeb wedi'i adolygu, ac mae data perfformiad yn dangos bod presenoldeb wedi gwella ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn addysg gynradd ac addysg uwchradd.
Dylai'r cyngor wella ei berfformiad wrth gynnal ymweliadau statudol gyda phlant sy'n derbyn gofal.	Mae perfformiad wedi gwella o 5% i 93%. Mae'r cyngor wedi gosod targed o 100% ar gyfer 2015-2016.
Dylai'r cyngor sicrhau bod y swydd wag yn y tîm plant mewn angen yn cael ei llenwi er mwyn cefnogi capasiti'r tîm.	Mae pob swydd wedi'i llenwi erbyn hyn gyda rheolwr cymwys a phrofiadol parhaol ochr yn ochr â'r nifer llawn o reolwyr tîm cynorthwyol a staff.

3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

- 3.1. Mae ymweliadau safle'n darparu cyfle i AGGCC siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu teuluoedd, a'r staff sy'n rheoli ac yn gweithio yn y gwasanaethau. Yn ystod 2014-2015, cynhaliwyd ymweliadau safle â'r gwasanaethau canlynol:
- Cyfleuster gofal ychwanegol Bro Preseli
 - Tîm gofal cymhleth amlasiantaethol ar gyfer pobl hŷn
 - Tîm iechyd meddwl Bro Cerwyn
 - Bwrdd rhianta corfforaethol
 - Pwyllgorau archwilio
 - Gwasanaethau ataliol plant
- 3.2. Cyfarfu AGGCC hefyd ag uwch-swyddogion y cyngor trwy gydol y flwyddyn i adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol ac i drafod cynnydd yn y meysydd i'w gwella a nodwyd yng ngwerthusiad perfformiad y llynedd. Roedd y cyngor yn gynorthwyol wrth ymgysylltu ag AGGCC ac yn hwyluso mynediad i alluogi cynnal ymweliadau safle.

4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

- 4.1. Nodwyd nifer o feysydd penodol i'w gwella yng nghorff yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor o ran y rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn y flwyddyn sydd i ddod.

Bydd meysydd penodol i'w dilyn yn cynnwys:

- Gweithredu'r newidiadau gwasanaeth yn barhaol wrth baratoi am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.
- Y gwaith a wnaed ar y cyd mewn perthynas â grŵp cydweithredol gofal cymdeithasol ac iechyd canolbarth a gorllewin Cymru
- Trefniadau comisiynu a chontractio ar draws gwasanaethau plant ac oedolion
- Prosesau sicrhau ansawdd yng ngwasanaethau plant

5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016

- 5.1. Bydd AGGCC hefyd yn cynnal yr arolygiadau a gwasanaethau thematig canlynol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, a gallai Sir Benfro gael ei ddewis ar gyfer gwaith maes:
- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref
 - Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu
 - Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal i blant sy'n derbyn gofal

6. I ba raddau mae'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?

Oedolion

Trosolwg

- 6.1. Y prif flaenoriaethau yng ngwasanaethau oedolion o hyd yw sicrhau diogelwch a lles pobl agored i niwed, hyrwyddo annibyniaeth, a rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Mae capasiti'r tîm diogelu oedolion wedi cynyddu, ac mae hyn wedi galluogi'r cyngor i edrych ar adolygu prosesau a systemau. Mae rheolwyr arwain dynodedig wedi'u dewis a'u hyfforddi, a nawr maen nhw'n gyfrifol am ymchwiliadau diogelu. Yn ei dro, mae hyn wedi caniatáu i'r tîm diogelu dargedu adnoddau wrth reoli atgyfeiriadau, gwneud penderfyniadau trothwy, a sicrhau bod cynlluniau gweithredu diogelu yn cael eu rhoi ar waith lle bo'r angen. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar y ganran o gyfeiriadau sydd nawr yn bodloni'r trothwy ar gyfer ymchwiliad, o lefel gweddol isel yn 2013-2014 o 15% i 61% yn 2014-2015. Mae angen i hyn fod yn destun adolygiad a gwerthusiad parhaus er mwyn sicrhau bod penderfyniadau trothwy priodol yn cael eu gwneud a bod pobl yn cael eu diogelu'n briodol.
- 6.2. Mae datblygu hwb comisiynu ar y cyd wedi dwyn timau ynghyd o adrannau 'Cefnogi Pobl', caffael, rheoli cytundebau, a sicrhau ansawdd. Mae hyn wedi galluogi'r cyngor i fwrw ymlaen â nifer o adolygiadau gwasanaeth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cynnig gwerth am arian a chanlyniadau o ansawdd da i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae adolygu lleoliadau cost uchel ar gyfer pobl ag anabledd dysgu wedi bod yn un enghraifft o'r gwaith hwn; ar hyn o bryd, mae pecynnau gofal ac anghenion 28% o ddefnyddwyr gwasanaeth preswyl a 22% o ddefnyddwyr y gwasanaeth byw â chymorth wedi cael eu hailasesu. Cynhaliwyd hyn mewn ymgynghoriad â phartïon perthnasol, ac mae'n

rhan o fodel i gefnogi'r pontio o ofal preswyl i fyw'n annibynnol. Mae'r cyngor yn bwriadu cwblhau'r adolygiad hwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf.

- 6.3. Mae'r hwb comisiynu wedi bod yn hanfodol o ran rheoli'r rhaglen drawsffurfio yng ngwasanaethau cymdeithasol. Penodwyd swyddog sicrwydd ansawdd ac mae gwaith wedi dechrau ar fframwaith sy'n seiliedig ar risg i gynnal adolygiadau mewn darpariaethau preswyl a gofal cartref. Cymerodd y sector ran eang yn yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r broses hon, a hyd heddiw, mae'n ymddangos yn broses gadarnhaol. Y nod yw gwella ansawdd gwasanaethau, a lle nodir nad oes cydymffurfiaeth â chontractau, mae awgrymiadau i wella yn cael eu gwneud, sy'n cael eu monitro gan y swyddogion sicrhau ansawdd.
- 6.4. Mae'r cyngor yn parhau i roi pwyslais ar y fframwaith comisiynu strategol, gyda ffocws ar adeiladu capasiti cymunedol a gwasanaethau ataliol a datblygu cefnogaeth i fentrau hunangymorth. Mae'r cynlluniau'n canolbwyntio ar wneud y mwyaf o annibyniaeth pobl trwy ddarparu gwasanaethau ailalluogi ac adferiad integredig. Lle mae angen gofal a chefnogaeth tymor hirach, bydd y cyngor eisiau sicrhau bod gan bobl fwy o lais o ran sut maen nhw am i'w hanghenion gael eu bodloni.
- 6.5. Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cydweithredol yn y gymuned, ynghyd â gwasanaethau fel ailalluogi, yn cyfrannu at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae cynnydd bychan wedi bod o 49% yn 2013-2014 i 53% eleni yn y nifer o bobl a gyflawnodd raglen ailalluogi ac a wnaeth ailennill eu hannibyniaeth heb fod angen unrhyw ofal neu gymorth tymor hir pellach. Mae hyn hefyd yn cydberthyn i ostyngiad yn y ganran o oriau gofal cartref a drefnwyd ar gyfer pobl a dderbyniodd becyn ailalluogi. Mae'r perfformiad hwn yn arddangos pwysigrwydd gwasanaethau ailalluogi effeithiol wrth leihau dibyniaeth ar wasanaethau preswyl.
- 6.6. Roedd y 'Prosiect Arfordirol', a ddaeth i ben yn 2014, yn cefnogi 1,035 o bobl i gael mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth ystyrlon. Sefydlodd y cyngor 'Fforwm Cyfleoedd Dydd' ym mis Mai 2014 yn lle'r prosiect hwn i barhau â'r gwaith ac i adeiladu ar ei lwyddiant. Mae hyn ar y gweill o hyd, ond mae'n rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi a galluogi'r rheiny nad oes ganddynt yn aml fynediad at gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth yn ystod y cyfnod trosiannol hwn.
- 6.7. Gwelodd y cyngor gynnydd sylweddol yn y nifer o geisiadau am awdurdodiad o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, o ganlyniad uniongyrchol i ddyfarniad 'Gorllewin Swydd Gaer', a dyrannwyd y rhain i'r timau iechyd meddwl cymunedol. Yn ystod y flwyddyn hon, cyflwynodd 46 o'r 62 cartref gofal yn y sir geisiadau mewn perthynas â phreswylwyr nad oedd ganddynt, yn eu barn nhw, alluedd meddyliol ac sydd efallai angen awdurdodiad o dan y Trefniadau

Diogelu rhag Colli Rhyddid. Ar y cyfan, nodwyd 529 o bobl oedd angen awdurdodiad o dan y trefniadau hyn ac sydd felly'n destun adolygiad blynyddol. Derbynnir cyfeiriadau newydd yn ddyddiol, ac mae'r cyngor yn ystyried integreiddio asesiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac adolygiadau ar draws y timau gofal oedolion.

- 6.8. Mae cefnogaeth i ofalwyr yn rhan hanfodol o weledigaeth y cyngor wrth ddarparu dewis o ran sut mae bodloni anghenion gofal a chefnogaeth pobl. Gan fod mwy a mwy o bobl yn arfer eu dymuniadau a'u hawliau i dderbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain, mae'r galwadau ar ofalwyr anffurfiol yn cynyddu. Datblygwyd y strategaeth gofalwyr mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (HDUHB), a chafodd ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae'n nodi sut mae'n rhaid i bartneriaid statudol gydweithio i ddarparu gwybodaeth i ofalwyr. Dyma drydedd flwyddyn y cynllun pedair blynedd, ac mae'n amlwg bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud. Mae pob un o'r pymtheg practis meddygon teulu wedi ymrwymo i Fuddsoddwyr mewn Gofal ac wedi cael eu hachredu ochr yn ochr ag Ysbyty De Penfro a fferyllfa gymunedol Tyddewi. Mae fersiwn o'r cynllun wedi'i ddatblygu i'w ddefnyddio mewn ysgolion uwchradd a cholegau, er mwyn canfod gofalwyr ifanc nad ydynt yn hysbys yn barod i'r awdurdod. Sefydlwyd fforwm gofalwyr yn dilyn model awdurdod cyfagos. Y bwriad yw bod y fforwm yn cael ei drefnu a'i reoli gan y gofalwyr eu hunain.
- 6.9. Nodwyd perfformiad cryf yn y maes hwn, gyda dros 1,200 o ofalwyr yn hysbys i'r cyngor sydd yn cael cynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion. O'r gofalwyr hynny, rhoddwyd gwasanaeth i 47% ohonynt. Parhaodd perfformiad cefnogi gofalwyr ifanc sy'n hysbys i wasanaethau cymdeithasol ar 100%. Bydd yn ddiddorol gweld sut mae'r cyngor yn integreiddio'r strategaeth gofalwyr yn llwyddiannus, ynghyd â rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a'i gofynion ar waith.

Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol (oedolion)

Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

- 6.10. Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd yn y gwasanaeth ataliol ac yn y gwasanaeth ymyrraeth gynnar. Mae'r cynlluniau 'Cymydog Da' wedi parhau i ddatblygu, gyda'r un mwyaf newydd yng ngogledd y sir. Tyddewi oedd y ddinas gyntaf yng Nghymru i ddod yn gymuned gyfeillgar i ddementia, ac mae'r cyngor ynghyd a'i bartneriaid HDUHB yn falch iawn o hyn. Mae'r cynllun hwn yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth am ddementia yn y gymuned ar draws yr holl genedlaethau, ac yn annog pobl a busnesau i fod yn 'gyfeillgar i ddementia'. Darparwyd hyfforddiant i fusnesau ac mewn ysgolion, ac mae pobl ifanc wedi dysgu llawer am ddementia. Bwriad y cynllun yw sicrhau bod cymunedau'n gallu bod yn rhwydweithiau cefnogol i ddinasyddion a, thrwy hynny, lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau

statudol.

- 6.11. Trosglwyddodd y cyngor ei wasanaeth ailalluogi mewnol i'r Grŵp Cefnogi Dynol. Trefnwyd y gwaith pontio'n dda, gydag ymgynghoriadau llwyddiannus â defnyddwyr a staff a drosglwyddwyd trwy'r Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau drosodd i'r Grŵp Cefnogi Dynol. Mae cynnydd wedi bod yn y nifer o bobl a gyflawnodd raglenni ailalluogi, ac mae'n galonogol i weld cynnydd yn y niferoedd a ailenillodd eu lefelau blaenorol o annibyniaeth ac nad oedd unrhyw angen bellach am ddarpariaeth gwasanaeth tymor hir. Mae'r gwasanaeth nawr yn derbyn cyfeiriadau uniongyrchol gan ofal iechyd a gofal cymdeithasol ac yn darparu gwasanaeth 'ymateb cyflym'. Mae'r cyngor yn gweld hyn fel rhan bwysig iawn o'i strategaeth i gefnogi pobl trwy ddarpariaeth gwasanaeth ataliol a galluogi yn hytrach na dibynnu ar fodolau gwasanaeth traddodiadol. Bydd gwaith monitro contractau yn pennu effaith y math hwn o ddull a'i wir fanteision.
- 6.12. Mae'r Gronfa Gofal Canolraddol wedi galluogi'r cyngor hefyd i ddarparu cyfleoedd eraill i gefnogi ailalluogi. Nododd nad oedd y gwelyau yn ei gartref gofal ei hun, Hillside, yn cael digon o ddefnydd, gan fod dymuniad pobl i ddefnyddio gwasanaethau preswyl wedi lleihau. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae'r cyngor wedi datblygu nifer o welyau cymunedol cam-i-fyny, cam-i-lawr, sydd wedi'u cefnogi'n llawn gan wasanaethau therapi. Gobeithiwn y bydd datblygiadau pellach yn cael eu hybu yn y dyfodol, gydag ariannu gan y Gronfa Gofal Canolraddol yn 2015-2016.
- 6.13. Ym mis Awst 2014, agorwyd Bro Preseli yng ngogledd y sir, cyfleuster gofal ychwanegol, mewn partneriaeth a'r Family Housing Association. Fel rhan o'r datblygiad hwn, mae'r cyngor wedi comisiynu dau fflat sydd â'r holl offer, a bwriad y rhain yw darparu ailalluogi tymor byr wedi'i dargedu i bobl sydd naill ai'n gadael yr ysbyty yn dilyn cyfnod o salwch neu'r rheiny yn y gymuned sydd angen rhywfaint o gefnogaeth tymor byr, yn hytrach na mynd i'r ysbyty neu i wasanaethau preswyl. Mae hwn yn gyfleuster nodedig, ac yn dilyn ymweliad safle, roedd AGGCC yn gallu gweld manteision y gwasanaeth i'r bobl oedd yn byw yno ac i'r gymuned ehangach, sy'n defnyddio'r cyfleusterau fel y tŷ bwyta a'r siop goffi. Mae canolfan ddydd i bobl â dementia, practis meddyg teulu, a chanolfan iechyd wedi'u lleoli ochr yn ochr â'r cyfleuster, gan ei wneud yn hwb cymunedol. Mae therapyddion wedi'u lleoli yno, ac felly maent wrth law i sicrhau cefnogaeth i ailalluogi.
- 6.14. Mae cyfleusterau gofal ychwanegol mewn ardaloedd eraill yn y sir wedi cynyddu eu capasiti o 88 i 128 uned, sydd eto'n cynnig gwir ddewis i ddefnyddwyr y gwasanaeth o ran sut i fodloni eu hanghenion gofal a chymorth.
- 6.15. Mae'r cyngor yn gweithio'n rhagweithiol gyda'i bartneriaid ar y llwybr

ataliol ac ymyrraeth gynnar i ddatblygu gwasanaethau sy'n gwella canlyniadau i bobl. Defnyddiwyd arian y Gronfa Gofal Canolraddol i ddatblygu prosiect trydydd sector cydweithredol, 'Tîm Sefydliad Canolraddol Sir Benfro' (PIVOT). Mae hwn yn gydweithrediad rhwng pum sefydliad o'r sector gwirfoddol sy'n darparu gwasanaeth ataliol lefel isel sy'n helpu i atal derbyn cleifion preswyl ac yn atal oedi wrth ryddhau claf o ofal ysbyty. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd PIVOT 308 o gyfeiriadau, a bu i 96 o'r rhain atal derbyn y claf mewn ysbyty. O ganlyniad i hynny, roedd arbedion cost sylweddol, ond, yn fwy na hynny, roedd manteision i unigolion nad oedd yn rhaid iddynt fynd i'r ysbyty.

Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn gydag anghenion cymhleth

- 6.16. Mae'r cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran integreiddio gwasanaethu ar gyfer pobl hŷn gydag anghenion cymhleth, gan gyfrannu at eu lles; mae pedwar tîm adnoddau amlddisgyblaethol cymunedol wedi'u lleoli mewn ardaloedd daearyddol, ac mae rhai wedi'u cyd-leoli. Mae'r timau'n cynnwys nyrsys cymunedol, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, a ffisiotherapyddion. Mae mynediad at y gwasanaeth i'w gael drwy'r ddesg gymorth broffesiynol sy'n gweithredu fel pwynt mynediad unigol. Mae timau gofal cymhleth yn cyfarfod bob pythefnos i drafod a chynllunio ar gyfer anghenion parhaus y bobl maen nhw'n eu cefnogi. Mynychodd AGGCC gyfarfod yn Ysbyty De Penfro a siarad gyda staff; roeddent yn gallu gweld manteision y dull integredig hwn yn glir wrth fodloni anghenion cymhleth pobl, a'r cyfraniad yr oedd yn ei wneud i'w lles. Roedd yn amlwg bod gan yr holl wasanaethau statudol ymroddiad ac ysgogiad yn ogystal â'u bod yn adnabod y mewnbwn pwysig gan sefydliadau'r trydydd sector.
- 6.17. Yn ystod y flwyddyn hon, cyfarfu AGGCC hefyd gyda'r tîm iechyd meddwl ym Mro Cerwyn. Roedd rheolwr y tîm yn y rôl dros dro ers Gorffennaf 2014 gan fod y swydd wedi bod yn wag ers i'r rheolwr blaenorol ymddeol. Roedd rhywfaint o ail-drefnu yn dal i ddigwydd, gyda'r potensial am dîm i'r gogledd a thîm i'r de ar gyfer y sir. Roedd y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) wedi'i roi ar waith yn ogystal â chynlluniau triniaeth, gan symud oddi wrth fodel meddygol at fodel adfer. Dylai'r cyngor werthuso sut mae'r timau yn gweithredu ac yn bodloni anghenion asesedig unigolion unwaith mae'r ailstrwythuro sefydliadol wedi digwydd, a phan mae swydd y rheolwr tîm wedi'i llenwi'n barhaol.

Meysydd lle mae cynnydd

- Datblygu llwybrau ailalluogi cynhwysfawr sy'n cefnogi annibyniaeth ac yn atal dibyniaeth ar wasanaethau statudol

- Datblygiad PIVOT fel rhan o agenda ataliol/ymyrraeth gynnar
- Datblygu timau adnoddau cymunedol yn barhaus

Meysydd i'w gwella

- Mewnosod gweithio integredig rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn bellach, ar lefel strategol

Plant a phobl ifanc

Trosolwg

- 6.18. Y prif flaenoriaethau yn y gwasanaethau plant o hyd yw sicrhau diogelwch a lles plant, a gweithio gyda theuluoedd i'w cefnogi trwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau a allai atal chwalu teulu.
- 6.19. Mae perfformiad mewn perthynas â gwasanaethau plant wedi parhau'n gadarnhaol gyda'r rhan fwyaf o ddangosyddion perfformiad allweddol naill ai'n sefydlog neu wedi gwella ers y flwyddyn ddiwethaf. Mae perfformiad ar atgyfeiriadau y gwnaed penderfyniad arnynt mewn un diwrnod gwaith wedi gwella o 98% y flwyddyn ddiwethaf i 100%. Parhaodd asesiadau cychwynnol a gyflawnwyd o fewn y raddfa amser yn gadarnhaol, o 97% y llynedd i 99%, ond mae'r amser cyffredinol i gyflawni asesiadau cychwynnol wedi syrthio o bron 10 diwrnod yn 2013-2014 i 12 diwrnod. Mae'n gadarnhaol i nodi gwella parhaus ym mherfformiad cyflawni asesiadau craidd, gyda 97% yn cael eu cyflawni o fewn 35 diwrnod, er bod cynnydd sylweddol wedi bod mewn gweithgarwch asesu dros y flwyddyn. Mae'n rhaid i'r cyngor sicrhau cymhwyso trothwyon a gwneud penderfyniadau'n briodol, trwy fesurau sicrhau ansawdd effeithiol, gan fod cynnydd wedi bod mewn atgyfeiriadau nad oedd yn symud ymlaen i'w dyrannu am asesiad o 16% y llynedd i tua 25% ar gyfer 2014-2015.
- 6.20. Mae'r cyngor wedi rhoi model 'Arwyddion Diogelwch' ar waith, dull sy'n canolbwyntio ar ddatrysiaid i wasanaethau diogelu plant. Mae wedi rhoi rhaglen hyfforddiant helaeth ar waith i'r holl weithwyr cymdeithasol gofal plant ac yn defnyddio'r model hwn ar draws gwasanaethau diogelu plant. Mae adborth cynnar gan ymarferwyr a theuluoedd yn nodi bod hyn yn symudiad cadarnhaol, ac mae'r dangosyddion perfformiad ar gyfer y gwasanaeth diogelu plant yn nodi rhai gwelliannau. Mae'r nifer o blant ar y gofrestr diogelu plant wedi codi a gostwng trwy gydol y flwyddyn, o gyfanswm o 111 i 64 ar ddiwedd y flwyddyn; mae'r ffigwr diwedd y flwyddyn hon yn debyg i'r nifer o blant oedd ar y gofrestr ar gyfer 2013-2014, sef 69. Fodd bynnag, wrth edrych ar y data

tueddiadau dros y chwe blynedd ddiwethaf, mae'r rhifau nawr ar eu lefel isaf yn dilyn bod ar ei fwyaf yn 2013.

- 6.21. Mae perfformiad diogelu plant yn parhau i fod yn gadarnhaol, safbwynt a gefnogwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth iddi gynnal ei hadolygiad diweddar o drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd. Nododd Swyddfa Archwilio Cymru y perthnasoedd gweithio agos ac effeithiol rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau addysg y cyngor, ynghyd â pholisïau clir oedd yn sail i'r trefniadau diogelu plant. Mae'n bwysig bod y mecanweithiau effeithiol hyn yn parhau i gael eu rhoi ar waith a bod trosolwg corfforaethol, yng ngoleuni'r newidiadau diweddar o ran swyddogion a strwythurau yn y cyngor. Gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru nifer o awgrymiadau, ac mae'r cyngor wedi ymateb i'r rhain.
- 6.22. Mewn ymateb i anhawster y cyngor wrth geisio cael mynediad at wasanaethau seicoleg arbenigol ar gyfer ei blant sy'n derbyn gofal, mae'r cyngor wedi comisiynu gwasanaeth a fydd yn darparu mynediad amserol i ymgynghoriadau ac ymyriadau lle bo'r angen. Y bwriad yw cefnogi a gwella iechyd emosiynol plant sy'n derbyn gofal. Dim ond ar ddechrau'r flwyddyn y dechreuodd y gwasanaeth, ond mae arwyddion cynnar yn gadarnhaol ac yn arddangos bod y cyngor yn cymryd ei rôl fel rhiant corfforaethol o ddifrif.
- 6.23. Mae gan y cyngor gynlluniau gweithredu ar waith i roi sylw i'r materion o adolygiadau arfer plant a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiadau wedi'u cyhoeddi a nifer o ganlyniadau dysgu allweddol wedi'u nodi, a oedd yn cynnwys monitro ac asesiadau risg gwell, a bydd cynnydd yn erbyn y rhain yn cael ei fonitro.
- 6.24. Mae'r cyngor yn cymryd pob cyfle i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc trwy amrywiaeth o fecanweithiau. Mae plant a phobl ifanc wedi cyfrannu trwy fynychu'r bwrdd rhianta corfforaethol, lle maen nhw wedi trafod yr hyn mae'r cyngor wedi'i wneud i wneud gwahaniaeth i'w bywydau. Mynychodd AGGCC y bwrdd ym mis Ionawr, a gwnaeth yr unigolyn ifanc oedd wedi gadael gofal greu argraff arnynt drwy siarad mor angerddol am sut roedd y cyngor wedi ei gefnogi trwy gyfnod anodd iawn mewn bywyd.
- 6.25. Mae'r bwrdd diogelu iau, a sefydlwyd y llynedd, wedi parhau i ddatblygu, a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau oedd yn rhoi cyfle i bobl ifanc gyfrannu. Bu i rai o aelodau'r bwrdd diogelu iau hefyd fynychu'r pwyllgor craffu ar ddiogelu a throsolwg i wneud cyflwyniad ar eu gwaith.

Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol


Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

- 6.26. Mae tystiolaeth bod teuluoedd yn cael eu cefnogi i gael mynediad at ystod fwy o wasanaethau cymunedol a bod cefnogaeth ariannol yn cael ei thargedu lle mae bylchau wedi'u nodi, fel y ddarpariaeth gynyddol o safleoedd Dechrau'n Deg. Mae hwn yn fesur pwysig wrth helpu i leihau tlodi plant. Mae'r cyngor wedi gallu cyflwyno gwasanaethau pellach i Aberdaugleddau, sy'n ardal o amddifadedd cymdeithasol, ac o ganlyniad, mae 165 o blant eraill wedi gallu cael mynediad at y gwasanaethau. Mae hyn nawr yn golygu bod 1,109 o blant a theuluoedd yn Sir Benfro yn manteisio ar y ddarpariaeth Dechrau'n Deg. Bydd y rhaglen yn cael ei hehangu ymhellach yn y flwyddyn sydd i ddod i gynnwys ardaloedd Neyland a Fenton. Mae'r cyngor wedi sicrhau bod Dechrau'n Deg wedi'i leoli ar sail cyd-leoli gyda phartneriaid, sydd wedi bod yn llwyddiannus yn chwalo rhwystrau rhwng timau, yn ogystal â chynyddu'r cyfle i rannu gwybodaeth a sgiliau. Mae gwefan Dechrau'n Deg â'r nod o ddarparu gwybodaeth fanwl a phenodol i rieni.
- 6.27. Cynyddodd y nifer o atgyfeiriadau i'r tîm o amgylch y teulu gan 30% yn 2014-2015, ac, o ganlyniad, rhoddwyd system swyddog dyletswydd ar waith i sicrhau bod teuluoedd yn derbyn cefnogaeth amserol briodol. Mae'r tîm o amgylch y teulu ar hyn o bryd yn gweithio gyda 250 o deuluoedd sy'n cael eu cefnogi ar y lefel ataliol hon. Gwelir hyn fel gwasanaeth cadarnhaol sy'n cyfrannu'n effeithiol at agenda ataliol y cyngor ac yn lleihau'r angen am ymyrraeth statudol.
- 6.28. Yn ystod 2013-2014, cynhaliodd y cyngor adolygiad o wasanaethau ar gyfer plant ag anabledd a'u teuluoedd. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth anabledd plant wedi'i integreiddio gyda gwasanaethau cynhwysiant a'r gwaith achos wedi'i adolygu. Mae hyn wedi caniatáu i ymarferwyr ganolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau a ddylai gyfrannu at ganlyniadau gwell i blant a'u teuluoedd.

Plant sy'n derbyn gofal

- 6.29. Mae'r cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth fodloni'r awgrymiadau oedd yn codi o'r adolygiad cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal sydd ag ymddygiadau cymhleth neu beryglus. Mae'r camau gweithredu hynny nad ydynt wedi'u cyflawni eto wedi'u hymgorffori yn y cynllun gwella ar gyfer eleni, a chyfrifoldeb y bwrdd rhianta corfforaethol yw monitro'r cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu. Bydd cynnydd ar hyn yn cael ei fonitro yn ystod y flwyddyn.
- 6.30. Ar y cyfan, syrthiodd y nifer o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan y cyngor o'i bwynt uchaf yn 2011 o 164 i 124 yn ystod 2014-2015. Y

gyfradd bresennol o blant sy'n derbyn gofal yw 4.5 fesul 1,000 o'r boblogaeth, sy'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru.



- 6.31. Y ganran o blant a gafodd dri neu fwy o leoliadau yn y flwyddyn oedd 11.4%, sydd yn welliant ers y llynedd, ac mae'r cyngor yn datblygu strategaethau lleoli mwy effeithiol i gynnig dewis lleoliadau gwell a sefydlogrwydd i blant sy'n derbyn gofal gan y cyngor.
- 6.32. Mae cysylltiadau agos rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, ac mae sefydlu system wybodaeth wedi'i theilwra, sydd wedi'i chysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion, wedi caniatáu i'r cyngor gymryd camau ar unwaith. O ganlyniad, mae presenoldeb wedi gwella ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Bu i berfformiad ar y ganran o blant sy'n derbyn gofal a chanddynt gynlluniau addysg personol ar waith aros yn gyson tua 92%.
- 6.33. Mae asiantaeth mabwysiadau rhanbarthol canolbarth a gorllewin Cymru nawr yn gwbl weithredol; mae polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau ar waith. Mae gwaith yr asiantaeth yn canolbwyntio ar ddarparu lleoliadau mabwysiadu ar gyfer plant yn Sir Benfro ac mewn tair sir arall.
- 6.34. Mae'r cyngor mewn cysylltiad â 100% o'r bobl sydd wedi gadael gofal, ac mae gan bob un ymgynghorydd personol wedi'i ddyrannu iddynt. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd yn y rhai sydd wedi gadael gofal ac nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o ddata'r tair blynedd ddiwethaf. Fel rhan o'i strategaeth rhianta corfforaethol, mae angen i'r cyngor sicrhau bod cynlluniau yn hwyluso ac yn cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal i gael cyfleoedd gwell a bod y rhain yn cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial.

Meysydd lle mae cynnydd

- Darpariaeth gynyddol o leoliadau Dechrau'n Deg yn cefnogi teuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig
- Amseroldeb asesiadau cychwynnol ac asesiadau craidd
- Ail-fodelu cefnogaeth i blant a theuluoedd gydag anabledd gyda ffocws ar gynhwysiant
- Darpariaeth gwasanaeth seicoleg i gefnogi iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal

Meysydd i'w gwella

- Parhau i ddatblygu strategaethau ac opsiynau lleoli gwell i blant sy'n derbyn gofal
- Mae angen i'r bwrdd rhianta corfforaethol sicrhau bod cynlluniau yn hwyluso ac yn cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal i gael cyfleoedd gwell a bod y rhain yn cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial

7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth

- 7.1. Mae'r strwythur yn y gwasanaethau cymdeithasol yn sicrhau arweinyddiaeth glir ar draws holl ardaloedd y gwasanaeth. Mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chefnogi yn manteisio'n barhaus ar arweinyddiaeth gref sydd wedi cyflwyno perfformiad gwell ynghyd â chefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol barhaus. Daeth cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol a hamdden i'w swydd ym mis Tachwedd, ac mae'n dal rôl statudol cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, cyn dechrau ar y swydd hon, roedd yn dal swydd Cyfarwyddwr Gofal a Hamdden i Oedolion. Mae'r rôl yn allweddol wrth ddylanwadu ar wneud penderfyniadau yn y cyngor ehangach, sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn flaenoriaeth, a manteisio ar gefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol. Eleni, mae newid sylweddol wedi bod ar lefel uwch-reoli yng ngwasanaethau cymdeithasol, gyda rhai penodiadau allweddol wedi'u gwneud ar lefel pennaeth gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion hefyd.
- 7.2. Mae gan y cyngor drefniadau rhianta corfforaethol effeithiol ar waith gydag ymrwymiad aelodau etholedig ac ymgysylltiad effeithiol â phartneriaid. Mae cynllun gwaith strwythuredig a chylch gorchwyl diwygiedig yn darparu sicrwydd bod y bwrdd yn adnabod ac yn gweithredu ar ei gyfrifoldeb fel rhiant corfforaethol. Mynychodd AGGCC

y bwrdd ym mis Ionawr a gweld trosolwg da o drefniadau rhianta corfforaethol a chyfrifoldebau. Nodwyd yn benodol ymgysylltiad pobl ifanc ar lefel bwrdd.

- 7.3. Mae'r cyngor wedi cynyddu ei gapasiti i fonitro ansawdd y gwasanaethau mae'n eu comisiynu drwy benodi swyddogion monitro a rhoi fframwaith sicrhau ansawdd ar waith ar draws meysydd y gwasanaeth.
- 7.4. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaeth y cyngor arbediad cyllideb o £12.9 miliwn. Bu i raglen trawsffurfio gwasanaethau oedolion a'r dull llawer cryfach o gomisiynu gyflawni arbediad o £2.8 miliwn yn y gwasanaethau oedolion a £100,000 yn y gwasanaethau plant. Mae'r cyngor wedi gosod buddsoddiad sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf ar recriwtio a datblygu ei weithlu, sy'n gam gadarnhaol. Fodd bynnag, fel pob cyfarwyddiaeth, mae gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu amser caled yn cyflwyno targedau effeithlonrwydd ac arbedion. Gydag arbediad disgwylidig o £1.97 miliwn yng ngwasanaethau oedolion a £960,000 yng ngwasanaethau plant yn ystod 2015–2016, mae'n bwysig bod y cyngor yn parhau i ddatblygu ei fframwaith comisiynu gryf ac ailfodelu gwasanaethau i gynhyrchu'r effeithlonrwydd angenrheidiol.
- 7.5. Er ei bod yn amlwg bod integreiddio gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn digwydd ar lefel ymarfer, a'i fod yn amlwg yn gwella canlyniadau ar gyfer unigolion sydd yn defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, nid yw'n amlwg ar lefel strategol. Mae'n bwysig gweld hyn ar lefel arweinyddiaeth er mwyn sicrhau ymrwymiad gan yr holl bartneriaid ac i hybu gwella a datblygu gwasanaeth yn barhaus.
- 7.6. Arsylwodd AGGCC ddau bwyllgor craffu, a chyflwynodd hefyd adroddiad o werthusiad gwasanaethau cymdeithasol y llynedd i'r cabinet. Ar y cyfan, roedd yr aelodau'n wybodus iawn am y materion oedd yn cael eu trafod, a darparwyd lefel o her i swyddogion. Mae lefel gref o gefnogaeth wleidyddol yn dal i fod yn y cyngor ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a dealltwriaeth glir o'r her o gyflwyno gwasanaethau i bobl agored i niwed ar amser lle mae toriadau sylweddol i gyllideb. Mae perthnasoedd gwaith da, gydag aelodau'n derbyn y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ar ddatblygiadau gwasanaeth a pherfformiad trwy'r trefniadau craffu. Mae protocol ar waith rhwng aelodau'r cabinet gyda'r prif gyfrifoldebau diogelu sy'n anelu i sicrhau cydweithio effeithiol ac i osgoi dyblygiad.
- 7.7. Mae'r cyngor yn parhau â'i fuddsoddiad cryf mewn diogelu plant ac oedolion, ac er bod newidiadau personél sylweddol wedi bod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn gadarn, ac yn ffocws blaenllaw ar gyfer gwaith yn y cyngor. Nodwyd hyn yn yr adborth cadarnhaol gan arolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau diogelu, lle gwelwyd y canlynol:

- 7.8. “Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Diogelu wedi ymgysylltu mewn rhaglen barhaus o fonitro a herio gweithgareddau diogelu'r cyngor.”

Meysydd lle mae cynnydd

- Datblygiad parhaus o ran pwyllgorau trosolwg a chraffu, gyda chydabyddiaeth gref o'u rôl o ran galw swyddogion i gyfrif

Meysydd i'w gwella

- Arddangos ymrwymiad strategol ac arweinyddiaeth i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig